OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1852 (Cy. 202)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DŴR, CYMRU

Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud	- -	*16 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym	- -	*31 Gorffennaf 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), sydd wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â diogelu dŵr rhag y llygredd sy'n cael ei achosi gan nitradau o ffynonellau amaethyddol, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Diwygio) (Cymru) 2003; maent yn gymwys i Gymru ac yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2003.

Diwygio Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Lloegr a Chymru) 1998

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Lloegr a Chymru) 1998(**3**) ("Rheoliadau 1998") yn cael eu diwygio fel y maent yn gymwys i Gymru yn unol â'r paragraffau canlynol—

(2) Yn rheoliad 2(dehongli) yn y diffiniad o "nitrate vulnerable zones" mewnosodir y geiriau "or 3B" yn union ar ôl "regulation 3".

(3) Yn rheoliad 8(1) (tramgwyddau) —

(i) yn lle "level 5 on the standard scale" rhoddir "the statutory maximum"; a

(ii) hepgorir y geiriau "not exceeding the statutory maximum" yn union ar ôl y gair "fine" lle mae'n ymddangos yr ail dro.

(4) Yn yr Atodlen

(**1**) *Gweler* Erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2001 (OS 2001/2555) ac Atodlen 2, paragraff 2 iddo.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1998/1202.